IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

DYDD GWENER, 14 RHAGFYR 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Mackie(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Jacobsen a/ac Sattar |

42 : DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

43 : CAIS AM DRWYDDED SAFLE - TRADERS, HIGH STREET, LLANDAFF

Ymgeisydd: Jonathan Rees

Y Cais

Daeth cais i law am grant Trwydded Safle gan Trader Jon’s Limited, mewn perthynas â 26 Stryd Fawr, Llandaf, Caerdydd.

Ymgeisiodd yr ymgeisydd am y canlynol:

(1) Parthed y gweithgareddau trwyddedadwy canlynol:

   (i) Manwerthu alcohol i'w yfed ar ac oddi ar y safle
   
   (ii) Darparu adloniant wedi’i reoleiddio ar ffurf cerddoriaeth wedi’i recordio (dan do)

(2) Yr oriau agor a ganiateir canlynol:

   Dydd Llun i ddydd Iau: 08:00 tan 23:00
   Dydd Gwener a dydd Sadwrn: 08:00 tan 00:00
   Dydd Sul: 10:00 tan 16:00

(3) I ddarparu gweithgareddau trwyddedadwy yn ystod yr oriau canlynol:

   (i) Manwerthu alcohol i'w yfed ar ac oddi ar y safle:
   
   Dydd Llun i ddydd Iau: 12:00 tan 23:00
   Dydd Gwener: 12:00 tan 00:00
   Dydd Sadwrn: 09:00 tan 00:00
   Dydd Sul: 10:00 tan 16:00

   (ii) Darparu adloniant wedi’i reoleiddio ar ffurf cerddoriaeth wedi’i recordio (dan do):
   Dydd Gwener a dydd Sadwrn: 23:00 tan 00:00

Dywedwyd wrth yr Aelodau ar ddechrau’r gwrandawiad fod yr ymgeisydd wedi cytuno i’r amodau y gofynnwyd amdanynt yn y sylwadau ysgrifenedig gan Heddlu De Cymru. Byddai’r cais felly’n cael ei ddiwygio’n briodol.

Sylwadau’r Ymgeisydd

Cyflwynodd Mr Jonathan Rees y cais.  Dywedodd Mr Rees ei fod yn un o berchenogion y busnes, ei fod yn byw yn yr ardal a'i fod wedi gweithredu Gŵyl Rym Caerdydd, digwyddiad llwyddiannus heb unrhyw hanes o broblemau.

Mae gan Mr Rees bartner busnes sy'n mewnfudo jin a rym dewisol a phan ddaeth y safle yn y Stryd Fawr ar gael cydnabuwyd bod cyfle i sefydlu math o safle oedd ar goll yn y Stryd Fawr.

Mae'r safle wedi bod yn masnachu trwy ddefnyddio hysbysiadau o ddigwyddiadau dros dro ac mae'n derbyn adborth dan gan y rhan fwyaf o drigolion lleol.  30+ oed yw'r cwsmeriaid.  Ni fydd y busnes yn darparu ar gyfer myfyrwyr – gyda diodydd yn cael eu prisio fel sy'n briodol.  Cynigir i gwsmeriaid sefydliad annibynnol o ansawdd.

Gwnaethpwyd cais am amod trwydded oddi ar y safle i alluogi gwerthu cynhyrchion arbenigol – ni fydd y cynhyrchion hyn ar gael mewn siopau eraill.  Ni fydd ardal allanol ac nid oes bwriad i sefydlu un yn y dyfodol.

Credodd Mr Rees fod y sylwadau ysgrifenedig ar sail ragdybiaethau ac nad oeddent yn ffeithiol.  Ers agor ar 16 Tachwedd 2018, ac er gweithredu dan Hysbysiadau o Ddigwyddiadau Dros Dro, mae digwyddiadau wedi bod yn llwyddiannus ac mae cwsmeriaid yn gefnogol.  Mae'r staff yn y safle yn cael eu parchu ac maent yn broffesiynol ac maent yn awyddus i wneud effaith ar y diwydiant.  Nod y busnes yw bod yn un o'r prif 50 o farrau yn y byd.

Mae'r safle yn darparu ar gyfer menywod yn bennaf, ef bod detholiad cyfyngedig o boteli o gwrw ar gael.  Bydd bwyd ar gael yn ystod y dydd – gyda brecwast a chinio'n cael eu gweini.  Bydd platiau bach megis tapas ar gael gyda'r nos.  Bydd gwasanaeth bwrdd a cherddoriaeth ar ffurf cerddoriaeth yn y cefndir.  Nid yw cerddoriaeth fyw yn cael ei chynnig ar hyn o bryd, er y gallai setiau acwstig gael eu hystyried yn y dyfodol.

Bydd yr holl staff yn derbyn hyfforddiant cynhwysfawr a byddant yn ddeiliaid trwydded personol ac â chymhwyster Hylendid Bwyd Lefel 3.

PENDERFYNWYD:  Wedi ystyried yr holl wybodaeth ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a Datganiad Polisi Trwyddedu'r Awdurdod Trwyddedu, bod yr Is-bwyllgor yn cymeradwyo'r cais, yn amodol ar yr amodau wedi'u hawgrymu yn y sylwadau ysgrifenedig gan Heddlu De Cymru.

44 : MATERION BRYS (OS O GWBL)

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.30 am